**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**ADOLYGIAD POLISI O'R IAITH GYMRAEG MEWN ADDYSG**

**YMATEB NUT CYMRU**

Mae NUT Cymru'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr arolwg hwn.

Mae'n cytuno â'r cynnig a gymeradwywyd gan Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y Cynulliad ym mis Gorffenaf 2000 a ddywedai hyn:

> 'Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n gryf y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod genedlaethol gyflawnadwy, a'i fod yn dymuno gweld strategaeth effeithiol yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod y nod hon yn cael ei chyflawni'.

NUT Cymru yw'r sefydliad mwyaf i athrawon a phrifathrawon yng Nghymru. Dim ond athrawon cymwysedig sy'n cael eu derbyn yn aelodau (a'r rhai sydd wedi eu cofrestru ar gyfer hyfforddi am statws gymwysedig). Mae'n cynrychioli ymhell dros 50% o'r athrawon a'r prifathrawon yng Nghymru ar draws pob cyfnod mewn addysg ysgol ac mewn ysgolion cyfrwng-y-Gymraeg, cyfrwng-y-Saesneg ac ysgolion dwyieithog. Mae hefyd yn cynrychioli athrawon cymwysedig a all fod mewn swyddi perthnasol eraill, fel swyddogion addysg, seicolegwyr addysgiadol a Chyfarwyddwyr Addysg.

Mae strwythur yr Undeb yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru, lle mae pob Adran yn cyfateb â phob un o'r Awdurdodau lleol ynghyd â Chyngor Cymru sy'n rhoi cyngor i Bwyllgor Cymru, corff Gweithredol yr Undeb yng Nghymru. Ef hefyd yw'r unig undeb sy'n cyflogi'r amrediad cyflawn o staff llawn amser yng Nghymru a all ddelio â'r holl faterion sy'n effeithio ar athrawon, un ai drwy roi cyngor ar gontractau, cyflogau, pensiynau a seibiant mamolaeth i athrawon unigol neu lunio polisi ehangach ar addysg ac ymateb i gynigion gan y Cynulliad. Mae swyddfa NUT Cymru'n gweithredu'n ddwyieithog.

Mae NUT Cymru wedi cefnogi'n gyson hawl rhieni yng Nghymru i allu dewis a ddylai eu plant gael eu haddysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg a, beth bynnag fo'r dewis hwnnw, i holl blant a phobl ifanc Cymru gael yr hawl i ddysgu ei dwy brif iaith. Mae hefyd wedi cefnogi'r Cwricwlwm Cymreig, sy'n rhoi'r cyfle i bob disgybl ddysgu am nodweddion diwylliannol, amgylcheddol, hanesyddol a ieithyddol Cymru yn eu holl amrywiaeth. Pan gaed cynnig am gyflwyno hawl i ddysgu Cymraeg fel pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol i bob disgybl rhwng 5 a 16, ymgyrchodd NUT Cymru o blaid y cynnig a hefyd, a'r un mor bwysig, dros ddarparu cyrsiau iaith Cymraeg i helpu athrawon i gwrdd â'r sialensau

newydd.

Mae NUT Cymru yn cytuno â'r themâu a ddewiswyd fel ffocws yr arolwg hwn:

- dylai pobl o bob oed gael y cyfle i ddysgu Cymraeg;
- felly, dylid gwella'r cyfloedd am astudio Cymraeg fel ail iaith;
- mae angen datblygu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws amrediad eang o bynciau ac ar bob lefel oherwydd, ym marn yr Undeb yn arbennig, bod darpariaeth addysg a hyfforddiant gyrfãol a holl addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg yn denau iawn ar hyn o bryd; ac
- mae angen hyrwyddo parch cyfartal i'r Gymraeg ac i'r Saesneg ill dwy.

Does dim eisiau gofyn beth fydd y ffactor tyngedfennol: cyllid. Os yw'r Cynulliad o ddifrif yn ei fwriad i greu Cymru ddwyieithog, yna mae'n rhaid iddo dderbyn y bydd hyn yn golygu costau sylweddol. Byddai'r cyfoeth ac amrywioldeb y gallai Cymru eu hennill drwy gyflawni gwir ddwyieithrwydd yn sylweddol, ond, yn ystod y broses, bydd angen edrych yn ofalus dros ben ar y blaenoriaethau.

Mae'r Undeb yn croesawu ymroddiad ELWa i gynnal a gwella darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg o fewn y sector y bydd yn gyfrifol amdano. Mae addysg bellach a hyfforddiant gyrfãol wedi llusgo ymhell y tu ôl i ysgolion yn eu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae'n rhaid i NUT Cymru dynnu sylw at y ffaith nad oes elfen o gyllid ychwanegol wedi ei rhoi ar gael, hyd yn hyn, hud yn oed i ysgolion yng Nghymru er mwyn darparu pwnc ychwanegol yn y cwricwlwm. Mae'n werth nodi, mewn unrhyw gymhariaeth â chyllid i ysgolion yn Lloegr, nad yw'r Cynulliad fyth yn sôn bod yr elfen ychwanegol hon (iaith ychwanegol ym mhob ysgol, boed Cymraeg neu Saesneg) yn galw'n anochel am gyllid ychwanegol.

Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) wedi bod yn gwneud, ac yn dal i wneud gwaith rhagorol drwy ddarparu adnoddau i gwrdd ag anghenion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, yn enwedig drwy gynhyrchu deunydd Cymraeg a dwyieithog at ddibenion dysgu'r Cwricwlwm Cymreig. Mae hon yn broses hir ac mae yna ddiffyg o hyd, ac mae athrawon yn dal i orfod dechrau o'r dechrau pan fyddant yn paratoi eu deunyddiau eu hunain, neu gyfieithu a, fel arfer, addasu'r deunyddiau sydd ar gael yn Saesneg. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at eu llwyth gwaith. Mae'r newidiadau aml mewn rhai meysydd yn y cwricwlwm, yn enwedig y newidiadau i feysydd llafur arholiadau, yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru'n gwneud gwaith rhagorol drwy ddarparu cyrsiau i athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg, a dyluniwyd llawer o'r rhain yn arbennig i helpu gyda newidiadau i

feysydd llafur. Serch hynny, mae'n ffaith drist, ond yn ffaith y gellir ei deall, bod hyd yn oed athrawon sy'n hollol rugl yn y Gymraeg ac a fyddai'n hapus i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn dod i'r casgliad weithiau na allant wneud hyn bob amser oherwydd y diffyg adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mewn rhai cyfnodau, yn enwedig Cyfnod Allweddol 4, mae athrawon yn aml yn gorfod ymgodymu ag anfodlonrwydd ymhlith disgyblion. Mae'n ffaith drist arall, ond yn un y dylid ei nodi, bod hyn yn arbennig o wir yn achos Cymraeg fel Ail Iaith yn y Cyfnod Allweddol hwn ac yn peri anawsterau ychwanegol i'r athrawon ac yn wrthanogaeth i rai barhau â'u gyrfaoedd.

Mae deunyddiau i gwrdd ag anghenion disgyblion ag anghenion addysgiadol arbennig yn achos pryder arall. Unwaith eto, mae deunydd rhagorol yn cael ei gynhyrchu'n awr yn y Gymraeg, ond nid yw'n ddigon i gwrdd â'r angen o bell ffordd. Yn gysylltiedig â hyn mae prinder staff cymwysedig, athrawon a staff eraill fel ei gilydd. Er enghraifft, mae yna brinder seicolegwyr addysgiadol yn gyffredinol, ond yn enwedig mae prinder rhai sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae llawer o deuluoedd, felly, yn teimlo'u bod nhw a'u plant o dan anfantais oherwydd y ffaith nad yw'r rhai sy'n llunio datganiadau ar anghenion addysgiadol arbennig yn gallu sgwrsio â'u plentyn yn eu mamiaith.

Hefyd, mae yna, mewn rhai ardaloedd, brinder cynghorwyr Awdurdodau Addysg Lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna brinder arolygwyr sy'n hollol rhugl yn y Gymraeg. Mae'r ddau ddiffyg ychwanegol hyn yn rhwystro cyflwyniad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r prinder gweithwyr proffesiynol cymwysedig yn glir yn barod. Ond erys problem sylweddol arall hefyd. Mae NUT Cymru'n nodi'n arbennig y prinder eithriadol o ddifrifol presennol mewn athrawon ar gyfer dysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Nododd yr adroddiad STRB diweddar a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2002 fod nifer yr ymgeiswyr am gyrsiau ymarfer dysgu Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn ystod 2001-02 wedi syrthio, o'i gymharu â'r flwyddyn gynt yn unig, o 33% anferth. Gweler Tabl 23 yn Atodiad 1.

- Cadarnhaodd arolwg GTC Cymru o recriwtio mewn ysgolion uwchradd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2001, fod yna anawsterau difrifol iawn wrth recriwtio athrawon i ddysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweler Atodiad 2.

Mae'r ddau adroddiad yn adlewyrchu sefyllfa argyfyngus.

Er nad yw sefyllfa gyffredinol recriwtio a chadw athrawon (hynny yw, ar gyfer pob pwnc a chyfnod) wedi cyrraedd y lefel argyfyngus a welir yn Lloegr, mae er hynny'n broblem sy'n tyfu ac mae llawer o ddiffygion cudd yn cael eu teimlo'n barod. Felly, er mwyn gweld gwelliant

mewn recriwtio a chadw athrawon yn gyffredinol ac mewn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arbennig, mae angen cymryd camau brys i wneud dysgu'n yrfa fwy deniadol. Mae'r Undeb wedi rhoi cyngor ar y mater hwn droeon a thro yn y gorffennol.

Ers i'r Cynulliad ymgymryd â'i bwerau ym mis Gorffenaf 1999, mae NUT Cymru wedi bod yn rhybuddio ynghylch yr argyfwng sydd ar ddod yn ein cyflenwad o athrawon. Erbyn hyn, mae dros 60% o'r athrawon yng Nghymru yn 50 mlwydd oed neu'n h•n. Mae targedau am recriwtio ar gyfer ymarfer dysgu yn syrthio'n fyr o'u nod yn gyson. Eto i gyd, yn ystod y pymtheng mlynedd nesaf, bydd dros 60% o'n hathrawon presennol yn ymddeol, rhai ohonynt yn gynt na'i gilydd, o ddewis neu oherwydd afiechyd. Ar yr un pryd, mae yna ddiferu cyson o athrawon o bob oed (er rhaid dweud bod hyn yn aml yn digwydd o fewn y pum mlynedd cyntaf o ddysgu) allan o'r ysgolion a hyd yn oed allan o addysg yn gyfangwbl, ac i mewn i yrfaoedd eraill.

Dylai moddion gwneud dysgu'n yrfa ddeniadol unwaith eto fod yn flaenoriaeth i'r Cynulliad, neu ni fydd dwyieithrwydd llawn fyth yn ffaith yng Nghymru.

NUT Cymru

Chwefror 2002